**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-785
Ein cyf/Our ref LG/02382/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebiadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

24 Hydref 2017

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Medi, ynghylch Deiseb P-05-785 yn galw am 'atal Trwydded Forol 12/45/ML i waredu gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point i ddyfroedd ar arfordir Cymru ger Caerdydd'.

Rwy'n pryderu ynghylch ymdeimlad y cyhoedd ar y mater hwn a'r gefnogaeth ar gyfer y ddeiseb hon. Cyflwynais ddatganiad ysgrifenedig ar 29 Medi i egluro'r sefyllfa gyda'r bwriad o leihau'r pryderon ar y mater. Mae'r datganiad ysgrifenedig llawn i'w weld ar y dolenni isod:

http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/marinelicencehinkleypoint/?lang=cy

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod trwyddedu morol yng Nghymru, ac maent yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru. Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru y drwydded hon (12/45/ML) ac maent yn parhau i fod yn gyfrifol amdani, gan gynnwys sicrhau cydymffurfio â'r amodau sydd ar y drwydded.

Hoffwn dynnu eich sylw at amodau 9.3 i 9.5 i'r prosiect:

9.3. Mae'n rhaid i Ddeiliad y Drwydded gyflwyno cynnig ar gyfer cynllun samplo gwaddod o'r safle a'r ardal gyfagos i Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n gweithredu ar ran Awdurdod Trwyddedu, ar gyfer ei gymeradwyo'n ysgrifenedig o leiaf 6 mis cyn i unrhyw waredu ddigwydd wedi'r 4 Mawrth 2016. Bydd y cynllun yn cynnwys manylion grid samplo, canllawiau dadansoddi (gan gynnwys asesiad radiolegol priodol) a fformat arfaethedig ar gyfer adroddiad sy'n penderfynu a yw'r deunydd yn addas i'w waredu ar safle LU110 yn ogystal ag amserlen ar gyfer cyflawni hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

9.4. Mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod samplo'r gwaddod yn digwydd yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno, fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 9.3. Mae'n rhaid i adroddiadau cynlluniau samplo gael eu cyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu o fewn yr amserlen y cytunwyd arni yn y cynllun.

9.5. Mae'n rhaid i Ddeiliad Trwydded sicrhau nad oes deunydd yn cael ei waredu wedi'r 4 Mawrth 2016 heb gadarnhad ysgrifenedig gan CNC, yn gweithredu ar ran Awdurdod Trwyddedu, fel eu bod yn fodlon bod y deunydd yn addas i'w waredu ar safle LU110.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebiadau, rwy'n gofyn ichi ystyried y pwyntiau canlynol fel rhan o'ch ystyriaeth ffurfiol cyntaf o'r ddeiseb hon:

- Mae nifer o amodau yn y drwydded forol sy'n galw am samplo a phrofi deunyddiau sydd i'w gwaredu ac mae'n rhaid i CNC gymeradwyo hyn cyn i unrhyw waredu ddigwydd.

- Fel arfer gorau, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gofio eu swyddogaeth o ran apeliadau o dan y system trwyddedu morol ac felly nid yw'n briodol i Weinidogion gynnig sylwadau ar agweddau penodol o'r penderfyniadau ynghylch trwyddedu morol. Felly, mae'n ddrwg gennyf na fydd modd imi gynnig gwybodaeth ychwanegol i'm datganiad ysgrifenedig na chynnig unrhyw sylwadau pellach ar y mater hwn.

- Dylid cylfwyno unrhyw sylwadau ynghylch y penderfyniad hwn i Cyfoeth Naturiol Cymru yn uniongyrchol, ac nid i Weinidogion Cymru.

- Fodd bynnag, mae'r cyhoedd yn Ne Cymru yn parhau i fod yn bryderus a byddaf yn gofyn i'm swyddogion ystyried gyda CNC sut y gallant rannu gwybodaeth am y drwydded hon cyn gliried ac agored â phosib i geisio lleihau pryderon pobl. Bydd angen hefyd i CNC ystyried y pryderon a godwyd yn ystod eu proses o wneud penderfyniad.

- Nid oes unrhyw ddeunydd wedi'i waredu o dan delerau'r drwydded hyd yma a dim ond os bydd canlyniadau samplo'r deunydd yn dangos ei fod yn ddiogel ac yn addas i'w waredu yn y môr fydd hyn yn digwydd.

Diolch am eich llythyr ar y mater hwn ac os y gallaf fod o unrhyw gymorth yn y dyfodol, cofiwch gysylltu â mi.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs